



HOCKEY WALES
HOCI CYMRU



EIN CYNLLUN

Cyflwyno Profiadau Hoci o'r radd flaenaf

Y DAITH

Mae Hoci Cymru yn gyffrous i lansio eu bwriad strategol. Am y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi ymgynghori ag aelodau ac wedi ymgysylltu â newyddiadurwyr dinasyddol a brofodd ddull adrodd stori newydd i'n galluogi i gael mewnwelediad aelodau. Gofynnwyd tri chwestiwn i'r aelodau a'u hysgogodd i ysgrifennu stori. Yna cawsant eu hannog i roi arwyddocâd ar y stori honno, i helpu Hoci Cymru i ddeall beth a'u cymhellodd, beth a'u hysbrydolodd, a dylanwadodd ar eu stori, amllder y profiadau yn eu stori ac a oedd eu profiadau wedi eu hannog neu eu hatal rhag parhau â hoci.

O'r ymchwiliad amlygwyd sawl thema allweddol: Pobl, Dysgu, Amgylcheddau, Llwyddiant, Cyflawniad, Mwynhad, Ymgysylltu. O ganlyniad, gwnaethom sylweddoli pwysigrwydd hanfodol yr ymarfer ymgynghori hwn sydd wedi ein galluogi i ymgysylltu a deall ein haelodau yn well a rhoi cyfle cyffrous inni newid ein dull. Mae hyn wedi arwain atom ni'n datblygu strategaeth esblygol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ddeinamig ac wedi'i harwain gan ddysgu.

Mae ein bwriad strategol wedi'i ddatblygu i adlewyrchu'r blaenoriaethau hynny. Mae wedi'i ddylunio i annog ein haelodau a'r rhai sy'n ymwneud â hoci i chwarae rhan weithredol wrth sicrhau ein bod yn darparu profiadau hoci o'r radd flaenaf. Rydym hefyd yn anelu at sicrhau bod y sefydliad yn ymdrechu'n barhaus i wella ac yn myfyrio ar ein cyflawniadau sy'n cyd-fynd â'r bwriad strategol.

Nid yw ein canlyniadau yn rhestr gynhwysfawr. Byddwn yn dangos ein llwyddiant trwy ddarparu gweithredol, tystiolaeth ac effaith. Trwy ddysgu rydym am fod yn addasadwy, yn hyblyg ac yn agored i newid, gan annog ein teulu hoci a'n cyfranogwyr i gydweithredu â Hoci Cymru i arddangos ein dysgu a'n llwyddiannau.



EIN CENHADAETH

CYFLWYNO PROFIADAU
HOCI O'R RADD FLAENAF

BWRIAD STRATEGOL

Ymgysylltu yn
barhaus gydag
aelodau presennol
a darpar aelodau

Datblygu
partneriaethau
i gynyddu ein gallu
i hyrwyddo, tyfu a
darparu hoci

Creu
cyfleoedd
i bawb cymrud
rhan

Creu
amgylcheddau
ffyniannus
i sicrhau profiadau
cadarnhaol

Helpu
pobl **cyflawni**
eu potensial





CANLYNIADAU

Mae anghenion a chymhellion aelodau presennol a darpar aelodau yn cael eu deall

Mae partneriaethau cryf yn cael eu creu a'u cynnal gan ein galluogi i ddarparu hoci

Pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i gyflawni eu potensial



Mae clybiau'n derbyn cefnogaeth bwrpasol, wedi'i gyrru gan anghenion

Mae arweinyddiaeth ac arbenigedd yn lleoliad strategol cyfleusterau hoci a ddarperir

Cryf, cefnogol a gweithlu gweithredol

Mae ystod o gyfleoedd i bobl brofi hoci wedi'u hwyluso

Mae chwaraewyr wedi'u galluogi i drosglwyddo i mewn i Rhaglenni Prydain Fawr



Llwybr chwaraewr ffyniannus sy'n hwyluso ein dyheadau rhyngwladol

Cynnal a gwella ein perfformiad ar lefel y byd ar lefel rhyngwladol

Hyrwyddir fersiynau priodol o'r gêm

Mentrau'n canolbwyntio ar yr unigolyn



EICH PROFIADAU

Helpodd eich straeon i lunio ein bwriad strategol.



"Ni wnaeth Hoci Cymru mynychu gemau pwll yng ngogledd cymru"

"Mae hoci bechgyn bron ddim yn bodoli ac yn cael ei anwybyddu'n llwyr mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Mae'n rhaid i fechgyn ifanc talentog teithio cryn bellter i chwarae gan nad oes llawer o ddarpariaeth leol. Mae'r diddordeb yn bendant yno ac mae'n hollbwysig bod y gamp ar gael i'r rheini sydd efallai ddim yn mwynhau cymryd rhan mewn pêl-droed a rygbi."

"Ymunais â'r grŵp hoci cerdded gan fy mod eisiau gwella fy ffitrwydd. Beth gefais allan ohono yn gymaint mwy - mae'n gymaint o hwyl, yn uffern o ymarfer corff gyda phobl wych, yn lleddfu tensiwn ac yn dod ag ochr gystadleuol allan o mi na wnes i gwybod fy mod i efo"

"Rwy'n hynod o siomedig i weld nid oes yna unrhyw ystyriaeth ddifrifol i fuddsoddi yn y gamp yn Aberystwyth a Ceredigion. Hoffwn weld Hoci Cymru yn camu i fyny eu gêm ac yn meddwl am y wlad gyfan yn lle canolbwyntio eu holl arian mewn pitch dŵr newydd yng Nghaerdydd / Abertawe."

"Mae 360 ag Aspire angen fod mwy heriol"



"Wrth i'r oedran crand o 50 basio ychydig o flynyddoedd yn ôl ac roedd y corff yn galw allan am fath o ymarfer corff, penderfynais ymchwilio mewn i hoci cerdded. Cefais lawer o hwyl a gofynnodd un o'r hyfforddwy'r imi a hoffwn ymuno â'u clwb hoci merched. Sylweddolais pa mor gyflym yw'r gêm hon ar yr arwyneb chwarae newydd ers imi chwarae diwethaf yn yr ysgol 40 mlynedd ynghynt ar laswellt. Dwi'n dal gyda'r clwb ac wedi arwyddo fel aelod, Mae'r clwb wedi gwneud i mi deimlo bod croeso mawr i mi ac rwy'n falch fy mod i wedi dod o hyd iddyn nhw, maen nhw i gyd yn hyfryd a fyddwn hoffi ddiolch i Hoci Cymru am y cyfle."

"Mae fy merch wrth ei fodd bod yn rhan o'r Grŵp Oedran Cenedlaethol. Mae hi wrth ei bodd bob munud yn y gwersyll ac yn teimlo bod y staff yn ei helpu i wella."

"Rwy'n ddiolchgar ar gyfer y gweithdai a ddarperir gan Hoci Cymru. Rwyf wedi defnyddio'r egwyddorion ymosod arno ac mae wedi trawsnewid fy hyfforddi a'r perfformiad y tîm"



"Mae bod yn Llysgennad Ifanc Hoci wedi rhoi cyfleoedd dirifedi i mi gymryd rhan mewn gwirfoddoli mewn sawl agwedd wahanol o hoci. Un yn benodol yw fy ymwneud â hoci Flyerz. Dechreuodd y plant a gymerodd ran yn y diwrnod heb fawr ddim profiad hoci efo rhai ohonyn nhw ddim eisiau cymryd rhan o gwbl. Fodd bynnag, erbyn diwedd y dydd, roedd gan bob plentyn y wên fwyaf ar eu hwyneb ac eisiau parhau i chwarae mwy. Y ffaith nad yw'r plant hyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn aml yn gwnaed i mi sylweddoli pa mor lwcus ydw i gyda'r cyfleoedd sydd ar gael i mi, ac y dylwn barhau i weithio ar wella cynwysoldeb y chwaraeon yr wyf yn ymwneud fwyaf ag ef, sef hoci."

"Dechreuodd y rhaglen Hooked on Hoci fy nghlwb hoci ar ôl ysgol sydd bellach yn rhan reolaidd o'r gweithgareddau allgyrsiol yn fy ysgol."

BETH RYDYM YN WYNEUD



Hwyluso cyflwyno hoci cerdded trwy ddatblygu adnoddau ac uwchsgilio partneriaid

Hockey
YOUNG
AMBASSADORS

Darparu cyfleoedd datblygu, hyfforddi a mentora i bobl ifanc. Eu grymuso i siapia hoci ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf



Cefnogi'r datblygiad o hoci mewn ysgol gynradd yn gynaliadwy trwy addysg a chreu cysylltiadau clwb-ysgol



Hwyluso cyflwyno hoci Flyerz trwy ddatblygu adnoddau ac uwchsgilio partneriaid



Cydlynu a darparu twrnameintiau sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad



Rhoi adnoddau, gwybodaeth a hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol i wneud hoci yn hygyrch



Darparu cyfleoedd gwirfoddoli mewn digwyddiadau Hoci Cymru



Cyflwyno llwybr perfformiad o ansawdd uchel

BETH RYDYM YN WYNEUD

Cwrsiau

Cydlynu a darparu cyrsiau i sicrhau bod gweithlu cryf, cymwys a medrus yn cefnogi twf hoci.

Darparu amgylcheddau perfformiad uchel a chyfleoedd i chwaraewyr rhwng 13 a 18 oed chwarae cystadleuaeth ryngwladol.

Grŵpiau
Oedran
Cenedlaethol

Datblygu Hyfforddwyr

Helpu i gefnogi a datblygu hyfforddwyr ledled Cymru o fewn y clwb a'r llwybr perfformio.

Darparu amgylchedd perfformiad uchel ar gyfer athletwyr rhyngwladol hŷn.

Carfan
Ryngwladol
Hŷn

Clwb Cymorth Datblygu

Darparu cefnogaeth 1 i 1 trwy ein datblygiad clybiau i gynorthwyo twf, cynaliadwyedd a hyfywedd clybiau.

Cefnogi clybiau i ddod yn llywodraethol, yn hyfyw ac yn gynaliadwy trwy sawl platfform dysgu.

Grŵpiau
Ddatblygiad

Canolfannau Ddatblygu

Darparu cyfleoedd wedi'u lleoli'n strategol i chwaraewyr hoci ifanc gael mynediad at sesiynau ychwanegol o ansawdd uchel.

Darparu amgylchedd perfformiad uchel ar gyfer athletwyr rhyngwladol dan 21/23.

Dan
21's/23's

Gwersylloedd Gwylliau

Cydlynu a darparu gweithgaredd hoci yn ystod gwyliau ysgol.

Cydlynu a darparu gwahanol o gyfleoedd hoci cystadleuol.

Cystadleuon

Meistri

Annog chwaraewyr i barhau i chwarae a chystadlu ar y lefel uchaf bosibl, mor hir â bosibl.

BETH YW HYN YN GOLUGI I MI?

Rydym wedi rhestru rhai enghreifftiau o'r hyn y gallai ein bwriad strategol ei olygu i chi ac rydym yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu a thrafod ein bwriadau gyda chi ymhellach.

Rhiant /
Gwarcheidwad

Byddwn yn sicrhau bod clybiau'n cael eu cefnogi i greu amgylcheddau diogel a phleserus i blant.

Clwb

Bydd Hooked on Hoci yn gwella cysylltiadau ysgolion cynradd, cryfhau twf hoci ieuenctid yn eich clwb.

Cyfranogwr Hoci
Cerdded

Bydd fersiwn arall o'r gêm ar gael i sicrhau nad oes rhwystrau i chi gymryd rhan.

Ysgol Gynradd

Byddwn yn eich helpu i sicrhau bod hoci yn gynaliadwy a rhoddir cyfle i blant yn eich ysgol brofi hoci.

Hyfforddwr

Cewch gefnogaeth i wella a symud ymlaen trwy wahanol gyfleoedd datblygu.

Rhyngwladol
uchelgeisiol

Bydd llwybr perfformiad ffyniannus yn sicrhau eich bod yn cyflawni eich dyheadau i gynrychioli Cymru.

Chwaraewr
meistr

Cewch eich dyrchafu a'ch dathlu, a byddwn yn eich cefnogi i ffynnu mewn amgylchedd diogel.

Partner

Byddwch yn rhan o'n tîm ac elwa ar ein gilydd o fuddsoddi yn un o'n rhaglenni cyffrous neu ei gymeradwyo.

**Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.*





HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

Diolch i'n staff, partneriaid, rhanddeiliaid ac aelodau a helpodd i lunio ein bwriad strategol. Rydym wedi dysgu o Vision 2020 a byddwn yn cychwyn ar y siwrnai hon gyda'n haelodau hyd y gellir rhagweld.

Mae Hoci Cymru yn diolch yn garedig i Sport Wales a GB Hockey am eu cefnogaeth barhaus i hoci yng Nghymru.

www.hockeywales.org.uk

Hockey Wales, Sport Wales National Centre, Cardiff, CF11 9SW

Cyhoeddwyd gan Hoci Cymru mewn Rhagfyr 2019